

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4060
(Cylchfan Abercannaid yr A470 i
Gylchfan Pentre-bach yr A4060,
Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau
Traffig a Chyfyngiad Cyflymder
Dros Dro) 2025

The A4060 Trunk Road (A470
Abercannaid Roundabout to A4060
Pentrebach Roundabout, Merthyr
Tydfil) (Temporary Traffic
Prohibitions and Speed Restriction)
Order 2025

Gwnaed 23 Mai 2025

Made 23 May 2025

Yn dod i rym 1 Mehefin 2025

Coming into force 1 June 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4060, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4060 Trunk Road, are satisfied that traffic on the specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid yr A470 i Gylchfan Pentre-bach yr A4060, Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiad Cyflymder Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A4060 Trunk Road (A470 Abercannaid Roundabout to A4060 Pentrebach Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Traffic Prohibitions and Speed Restriction) Order 2025 and this Order comes into force on 1 June 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“exempted vehicle”) yw:

Interpretation

2. In this Order—
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽¹⁾;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984⁽¹⁾;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4060 East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 on 1 June 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and restriction

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than a vehicle being used for the works associated with this Order, on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in article 5 are in operation.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

7. —(1) Nid yw'r gwaharddiadau na'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

23 Mai 2025

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Application

7. —(1) The prohibitions and restriction in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

23 May 2025

Nicci Hunter

Business Team Leader
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30mya Dros Dro

Y darn o Gefnffordd yr A4060 o'i chyffordd â Chylchfan Pentrebach hyd at ei chyffordd â Chylchfan Abercanaid yr A470.

Llwybrau Dargyfeirio

Bydd traffig yr A470 sy'n teithio tua'r gogledd a thua'r de sy'n dymuno cyrraedd yr A4060 drwy Gylchfan Abercanaid yn cael ei ddargyfeirio tua'r gogledd i Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed, yna tua'r dwyrain i ailymuno â'r A4060 tua'r de drwy Gylchfan Cyfnewidfa Dowlais Top yr A465.

Bydd traffig sy'n dymuno teithio tua'r de ar Gylchfan Pentrebach yr A4060 yn cael ei ddargyfeirio tua'r gogledd i Gylchfan Cyfnewidfa Dowlais Top, yna tua'r gorllewin ar hyd yr A465 i ailymuno â'r A470 wrth Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed.

Bydd traffig yr A465 sy'n dymuno ymuno â'r A470 tua'r de drwy fynd ar yr A4060 yn cael ei ddargyfeirio tua'r gorllewin i Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed i ailymuno â'r A470.

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists and Temporary 30mph Speed Limit

The length of the A4060 Trunk Road from its junction with the Pentrebach Roundabout to its junction with the A470 Abercanaid Roundabout.

Diversion Routes

A470 northbound and southbound traffic wishing to access the A4060 via the Abercanaid Roundabout, will be diverted north to the Cefn Coed Interchange Roundabout, then east to rejoin the southbound A4060 via the A465 Dowlais Top Interchange Roundabout.

Traffic travelling south on the A4060 will be diverted north to the Dowlais Top Interchange Roundabout, then west along the A465 to rejoin the A470 at the Cefn Coed Interchange Roundabout.

A465 traffic wishing to join the A470 southbound via the A4060, will be diverted west to the Cefn Coed Interchange Roundabout to rejoin the A470.